

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 6ed 2017 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Gwenda Morris (Cadeiryddes), Gary Thomas, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Gwynedd Jones, Alwyn Jones y Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gethin Morris, Iolo Evans, Dewi Pritchard, Rita Jones a Gwenda Evans.

Croesawyd Gwenda Morris i'r gadair a diolchwyd i Gary Thomas am ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf. Cynigwyd enw Iolo Evans fel is-gadeirydd.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.

a) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

b) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

i) Cynghorwr newydd.

Roedd y clerch wedi arddangos yr hysbysiadau perthnasol ond gan nad oedd unrhyw enw wedi dod ymlaen roedd y cynghorwyr yn rhydd i gyfethol aelod newydd.

b) Asedau'r Cyngor.

Roedd Gary Thomas wedi archwilio'r llochesi bws yn Sarnau a Chefnddwysarn. Awgrymodd y dylid rhoi cot o farnish i'r pren yn y lloches yng Nghefnddwysarn a chynigodd i wneud hyn. Diolchwyd iddo am ei waith.

c) Diffibriliwr i bentref y Sarnau

Yn dilyn ymholiadau cafwyd cadarnhad y byddai modd i'r Cyngor adhawlio'r TAW ar yr offer ac i ychwanegu'r offer i'r polisi yswiriant. Gofynnwyd i'r clerch gadarnhau hyn gyda'r CFFI.

ch) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

i) Cwmni BT oedd yn gyfrifol am y twll archwilio a oedd wedi malu ar yr A494 rhwng y Bryn a phentref Llanfor ac roedd yr Asiantaeth Cefnffyrdd wedi dod a'r mater i'w sylw.

ii) Roedd trefniadau mewn lle i osod ffens yn lle'r ddwy giât bren ar y llwybr cyhoeddus rhwng Llanfor a Bala gan nad oedd y giatiau yn cael eu defnyddio rhagor.

c) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen waith yr Adran Priffyrdd ar gyfer mis Mehefin.

b) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Manylion cyfarfodydd y Parc a'r Cyngorau Tref a Chymuned.

ii) Roedd y Parc yn cynnig 4 coeden afal am ddim a chytunwyd i gysylltu â'r ddwy ysgol gynradd leol i holi os oedd ganddynt ddiddordeb ynddynt.

c) Un Llais Cymru

i) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Nolgellau ar y 21/6/17.

ch) Ceisiadau Cynllunio.

i) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-
C17/0477/04/LL – Codi ty haf i gefn yr annedd. 7, Cae'r Dderwen, Llandderfel.
NP5/63/229C – Amnewid ffenestri presennol. Ysgol Gynradd Bro Tryweryn, Frongoch.

d) Materion Ariannol.

i) Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Adroddodd y clerc bod y cyfrifon a'r ffurflen wedi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol.
Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol.
Adroddodd y clerc y byddai'n anfon y ffurflen a'r dogfennau perthnasol ymlaen i'r archwilydd mewnol.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- i) Rhent cae chwarae Frongoch i Gyngor Gwynedd.
- ii) TWE – treth ar gyflog y clerc

dd) Unrhyw Fater Arall

i) Arhosfa bws newydd ar stryd fawr Y Bala.

Gofynnwyd i'r clerc basio pryderon y cynghorwyr i leoliad yr arhosfa bws newydd ger Canolfan Henblas.
Roedd achos wedi bod yn barod lle roedd y bws wedi stopio i ollwng teithwyr a gan fod ceir yn cael parcio
gyferbyn a'r arhosfa bws nid oedd ambiwlans wedi gallu pasio.

ii) Nodyn o gydymdeimlad.

Cytunwyd yn unfrydol i anfon neges o gydymdeimlad i'r gyn clerc Mrs Eirwen Jones yn dilyn ei
phrofedigaeth ddiweddar.